**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygio) 2022**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi gan Uned Strategaeth a Pholisi Bwyd Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi safbwynt teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygio) 2022.

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
23 Tachwedd 2022

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1. Mae'r offeryn hwn yn gwneud amryw ddiwygiadau technegol i ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE mewn perthynas â safonau marchnata ar gyfer cynhyrchion amaethyddol. Mae'r diwygiadau mewn dau gategori:

- diwygiadau canlyniadol o ganlyniad i gyflwyno Deddf Amaethyddiaeth 2020;

- diwygiadau gweithredol o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Dim

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3. Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol i'r diwygiadau hynny a wnaed gan Ran 4 o Atodlen 7 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.

4. Mae'r diwygiadau canlyniadol yn ymwneud â safonau marchnata ac maent yn cael eu gwneud i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE.

   Mae'r diwygiadau naill ai yn dileu croesgyfeiriadau at erthyglau yn Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 (EUR 2013/1308) ("y Rheoliad CMO" sydd wedi cael eu datgymhwyso gan Ran 4 o Atodlen 7 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, ynghyd â'r geiriad cysylltiedig mewn rhai achosion, neu yn gweithredu i ddisodli cyfeiriadau at erthyglau yn y Rheoliad CMO gyda chyfeiriadau priodol at ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir neu at Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.

5. Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 50(3) a 53(2) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.

6. Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a bydd yn dod i rym ar 14 Rhagfyr 2022.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

7. Bwriad safonau marchnata yw sicrhau bod cynhyrchion a gynigir i ddefnyddwyr yn cael eu labelu'n gywir ac yn gyson, eu bod o ansawdd derbyniol a bod cynnyrch anfoddhaol yn cael ei gadw oddi ar y farchnad.

8. Diben yr offeryn hwn yw gwneud diwygiadau mewn perthynas â safonau marchnata i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE, mewn perthynas â Chymru.

9. Mae datgymhwyso'r darpariaethau hyn yn golygu y bydd croesgyfeiriadau atynt mewn nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth bresennol ar safonau marchnata yn cael eu diweddaru.

10. Bydd hyn yn helpu i osgoi creu anghysondebau a bylchau rhwng y ffordd mae cyfreithiau marchnata yn berthnasol yng Nghymru ac yng Ngweddill Prydain Fawr, yn enwedig ynghylch materion sy'n ymwneud â gofynion marchnata, gofynion ardystio a gofynion mewnforio.

11. Byddai hefyd yn osgoi unrhyw wahaniaethau a fyddai'n rhwystro Cymru pan fydd am ystyried neu'n dymuno gwneud diwygiadau newydd mewn perthynas â safonau marchnata yn y dyfodol agos o dan bwerau yn Rhan 4 o Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.

## 4. Ymgynghori

12. Cynhaliodd Llywodraeth y DU ymarfer ymgysylltu ar y cyd, wedi'i dargedu, gyda rhanddeiliaid perthnasol yn y diwydiant rhwng 27 Ebrill a 7 Mehefin 2022.

13. Roedd y rhanddeiliaid a gafodd eu targedu'n cynnwys cyrff masnach cynrychiadol, masnachwyr unigol a mewnforwyr yn Lloegr, ac ymgynghorwyd â rhanddeiliaid cynrychiadol o Gymru ar ran Llywodraeth Cymru.

14. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau neu gwestiynau o sylwedd i'r ymarfer ymgysylltu. Mae'r rhanddeiliaid a gafodd eu targedu wedi cael eu hysbysu am ganlyniad yr ymarfer ymgysylltu.

## 5. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

15. Nid yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei ddarparu ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir unrhyw effeithiau arwyddocaol ar gyfer busnesau yn y sector cyhoeddus. Mae hyn yn seiliedig ar yr offeryn statudol mewn perthynas â chynnal safonau rheoleiddiol presennol a natur dechnegol unrhyw newidiadau.

16. Mae hyn yn unol â'r polisi a amlinellir yng Nghod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.